

# WHESS

## Welsh Health Economics Support Service
## Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**2019-20**
**Adroddiad Blynyddol**



## Darganfod rhagor am WHESS:

https://www.ymchwiliechydagofal.llyw.cymru/gwasanaeth-cymorth-economeg-iechyd-cymru/

## Cysylltu â ni:

**Ffôn:** 01248 382153 or 01792 602226

**E-bost:** r.t.edwards@bangor.ac.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ein Gwaith yn y Gorffennol fel WHESS | Tud 2 |
| Rhagair | Tud 3 |
| Crynodeb Cymraeg Clir | Tud 4 |
| Crynodeb Gweithredol | Tud 5 |
| Cyflwyniad | Tud 6 |
| Ein Gweithgarwch | Tud 7 |
| Meithrin Galluogrwydd mewn Economeg Iechyd | Tud 8 |
| Ein Hymchwilwyr | Tud 9 |
| Pecynnau a Themâu Gwaith | Tud 10 |
| Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion â'r Cyhoedd | Tud 18 |
| Ein Prif Gyflawniadau | Tud 20 |
| Pwyslais ar Werth | Tud 26 |
| Cyflwyniadau a Digwyddiadau | Tud 28 |
| WHEG mewn lluniau | Tud 30 |
| Creu Sylfaen Dystiolaeth Economeg Iechyd | Tud 31 |
| Tîm WHESS 2019/20 | Tud 33 |
| Ein Prif Bartneriaid | Tud 34 |
| Rhagor o Wybodaeth am WHESS a Chysylltu | Tud 36 |

# Ein Gwaith yn y Gorffennol fel WHESS

### Beth yw economeg iechyd?

Mae economegwyr iechyd yn ymddiddori yn y modd rydym yn defnyddio adnoddau prin i ariannu ein anghenion iechyd a gofal cymdeithasol drwy ganolbwyntio ar y berthynas rhwng costau a chanlyniadau. Mae gwerthusiadau economeg iechyd yn ein helpu i ateb cwestiynau am y buddiannau iechyd y gallwn eu cael drwy ymyriadau iechyd a gofal (fel meddyginiaethau, llawfeddygaeth, dyfeisiadau meddygol, gofal cymdeithasol, gwasanaethau adsefydlu neu ataliol), gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Roedd **WHESS, Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru,** hyd fis Mawrth 2020 yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i hybu ymchwil feddygol a gofal cymdeithasol, i wella ansawdd ceisiadau am gyllid a helpu prosesau penderfynu sy'n ymwneud ag iechyd ledled Cymru.

### Sut allai WHESS helpu?

Rhwng 2018 a 2020, bu WHESS yn darparu cymorth economeg iechyd ar bob agwedd ar ymchwil gan gynnwys:

- Datblygu astudiaethau
- Meithrin cysylltiadau cydweithredol
- Costio ymyriadau, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac adnoddau cymdeithasol
- Gwerthusiadau economaidd fel cost effeithiolrwydd a dadansoddi cost-defnyddioldeb, yn seiliedig ar dreialon clinigol a/neu fodelu economaidd
- Adolygiadau systematig a realistig, ac epidemioleg
- Dulliau blaenoriaethau gan gynnwys Cyllidebu Rhaglenni a Dadansoddiad Ymylol (PBMA)
- Dadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)
- Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion
- Astudiaethau canfod hoffterau, fel arbrofion dewis arwahanol
- Defnyddio a dadansoddi data cyffredinol
- Cyhoeddi a lledaenu canlyniadau ymhlith ymchwilwyr a chyllidwyr eraill fel llywodraeth ac elusennau, a grwpiau cleifion



### Y rhai rydym wedi'u helpu…

Rydym wedi helpu ymchwilwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau academaidd, iechyd a gofal cymdeithasol yn y GIG yng Nghymru sydd angen cymorth economeg iechyd o gamau cysyniadol cynnar cynnig ymlaen i'r cyfnod adrodd terfynol a lledaenu gwybodaeth.

# Rhagair

**WHESS yn newid i Economeg Iechyd a Gofal Cymru**

Mae WHESS wedi newid ei enw i **Economeg Iechyd a Gofal Cymru ers 1 Ebrill 2020**. Mae hyn yn adlewyrchu ein huchelgais fel cymuned Gymru gyfan o arbenigedd economeg iechyd o safon fyd eang sy'n arwain ac yn hybu ymchwil o safon ryngwladol er budd pobl Cymru a thu hwnt.

Economeg Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Economics Cymru

Mae'n braf cyhoeddi'r newyddion da ein bod wedi cael ein hariannu am dair blynedd arall y tu hwnt i Ebrill 2020 fel Economeg Iechyd a Gofal Cymru, ac yn cael ein cyd-gyfarwyddo gan yr Athro Deb Fitzsimmons a minnau. Dyma felly adroddiad blynyddol olaf WHESS, ac ynddo rydym yn dangos sut yr ydym wedi parhau i **ddatblygu ein cyfraniad at ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru** drwy gynnal cydweithrediadau effeithiol, fel gwasanaeth Cymru gyfan. Cawsom le amlwg yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Hydref 2019. Yn ystod 2019-20, dangoswyd sut y llwyddwyd i **ymateb, addasu a thyfu gyda'r newid mewn amgylchiadau** i barhau i gefnogi amcanion strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Buom hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gofal iechyd ac atal ar hyd trywydd bywyd, a chafodd hynny ei bwysleisio'n fwyaf diweddar ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen o ganlyniad i'r epidemig Covid-19. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd yr adnoddau fydd ar gael i iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hymestyn i'r eithaf. Bydd economeg iechyd yn hanfodol i liniaru'r niwed anfwriadol a achoswyd i'r sector gofal ac iechyd gan yr ymateb angenrheidiol i'r pandemig. Rhad inni sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau prin mewn ffordd arloesol, effeithlon mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cynnydd wrth ymgysylltu â sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol y trydydd sector a gwyddorau bywyd yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i gyflawni hyn yn y cyfnod anodd sydd o'n blaenau.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein prif gyflawniadau ac effaith ein cydweithrediadau yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Gan obeithio y gwnewch fwynhau ei ddarllen.**



**Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards**
**Cyfarwyddwr WHESS**

# Crynodeb Cymraeg Clir

Ni welwyd adeg o'r blaen pan ydym wedi gwerthfawrogi cymaint ar ein GIG nag yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd y pandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae'r adnoddau sydd ar gael i iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfyngedig. **Rhaid gwneud penderfyniadau anodd ar sut y gallwn gael y budd mwyaf o'r adnoddau hyn.** Gall economegwyr iechyd Cymru, fel rhan o Wasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS) helpu i ganfod mwy am werth am arian gwahanol driniaethau ac ymyriadau. Bydd hyn yn ein galluogi i gadw pobl yn iach a sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau ledled Cymru.

Eleni, rydym yn falch o gyhoeddi bod WHESS wedi newid ei enw i Economeg Iechyd a Gofal Cymru ers mis Ebrill 2020. Mae hyn yn adlewyrchu ein cydweithrediad ag ymchwilwyr yn y GIG a gofal cymdeithasol ledled Cymru a'r DU, ac yn rhyngwladol hefyd. O Ebrill 2020 ymlaen, bydd Economeg Iechyd a Gofal Cymru o dan arweiniad yr Athro Deb Fitzsimmons o Brifysgol Abertawe a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards o Brifysgol Bangor yn gweithredu fel menter gydweithredol Gymru gyfan. Ar lefel y DU, helpodd WHESS i ddenu grant gwerth dros £2.1 miliwn, gyda £1 miliwn ohono wedi dod yn uniongyrchol i Gymru. Mae hyn yn golygu bod dros hanner y ceisiadau llwyddiannus am grantiau yr oeddem yn gysylltiedig â hwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi eu harwain o Gymru, sy'n dangos graddfa ein cydweithredu â chydweithwyr Ymchwil Iechyd a Gofal ledled Cymru, ond hefyd y rôl sy'n cael ei chwarae gennym ar lefel y DU. Buom hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru â pholisi a phrosesau penderfynu.

Bydd Economeg Iechyd a Gofal Cymru yn parhau i gydweithio ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth inni wynebu'r "normal newydd" a holl heriau hynny ar ôl i'r storm gilio. Byddwn yn mwynhau rhannu hanes ein siwrnai â'n holl gyllidwyr, partneriaid prosiect a chynrychiolwyr cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

**Mae ein cyflawniadau allweddol yn 2019/20 yn cynnwys:**

**Ar gyfer llunwyr polisi** – cynnig cymorth uwch i lunwyr polisi a phwyllgorau llunio polisi (tudalen 10).

**Ar gyfer cleifion a'r cyhoedd** – rhaglen yr 'Ŵyl Gwyddorau Cymdeithas' i'r cyhoedd ym Mhrifysgol Bangor sy'n cynnwys cleifion a'r cyhoedd i ffurfio, cynnal a rhannu ein hymchwil (tudalen 19).

**Ar gyfer staff gofal sylfaenol** – gweithdai i gynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, cynllunio gwell, mwy o alluogrwydd, ac effeithiolrwydd yr hunan i gynnal gwerthusiadau iechyd a gofal (tudalen 21).

**Ar gyfer pobl sy'n byw â sglerosis ymledol (MS)** – rhoi llwybr rheoli clinigol ar waith, ymgorffori adsefydlu niwroseicolegol (yr astudiaeth NEuROMs; tudalen 22).

**Ar gyfer pobl sy'n byw â chyflyrau clinigol** – hybu annibyniaeth, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i'r bobl dlotaf drwy gael gwared ar rwystrau rhag ymarfer corff a hunan reoli cyflyrau (tudalen 23).

**Ar gyfer awdurdodau lleol ac elusennau sydd am ddangos y gwerth cymdeithasol maent yn ei gynhyrchu** – Hyfforddiant mewn Gwerth Cymdeithasol yn y Ganolfan Gwerth Cymdeithasol ym Mangor (tudalen 27).

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu pwysau cynyddol oherwydd poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, datblygiadau cyflym mewn meddygaeth, cynnydd yn nisgwyliadau cleifion ac effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig Covid-19 presennol. **Mae economeg iechyd, sy'n ein helpu i ddewis y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau, sy'n aml yn gyfyngedig, yn awr yn bwysicach nag erioed i sicrhau bod y GIG a'r system gofal cymdeithasol yn parhau'n gynaliadwy.**

Mae Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS) **yn hybu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru i gynhyrchu tystiolaeth sy'n sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn cael mwy o effaith.** Gall ymgysylltu cryf â rhanddeiliaid allweddol, sy'n cael ei hwyluso gan WHESS, olygu ein bod wedi helpu ystod eang o brosiectau ymchwil i ddeall sut y gall datblygiadau mewn strategaethau ataliol, diagnosis, triniaethau ac adsefydlu wella iechyd a llesiant, a chyfrannu at yr economi. Rydym yn cynorthwyo ymchwil sy'n gweithio mewn lleoliadau academaidd, iechyd a gofal cymdeithasol yn y GIG yng Nghymru sydd angen cymorth economeg iechyd o'r camau cynnar ymlaen i'r camau adrodd terfynol a chyhoeddi. **Roedd gweithgarwch yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:**

- **Darparu dros 690 o unedau cyngor i ymchwilwyr ledled Cymru,** gan amrywio o gyngor cyffredinol i gymorth penodol â cheisiadau, gan gynnwys gweithredu fel cyd-ymgeiswyr ar 55 o gynigion am grant i gyllidwyr yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol
- **Ymgysylltu â'n cydweithwyr yn yr unedau treialon clinigol a chanolfannau ymchwil ledled Cymru** i ddylunio gwerthusiadau economaidd o ansawdd uchel ochr yn ochr â threialon ac astudiaethau clinigol.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i ymgysylltu mwy â sefydliadau gofal cymdeithasol a thrydydd sector i **hybu syniadaeth a dulliau economeg iechyd** yn eu gweithgarwch a'u cynlluniau.
- Ymgysylltu â chydweithwyr yn y diwydiant i gynnal ymchwil i **ymchwilio i werth am arian eu cynnyrch wrth eu datblygu a'u dewis.**
- Rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau, gwahoddiadau i annerch, ac ymweliadau ledled y DU a thu hwnt i **hyrwyddo gwaith WHESS**.

Rydym yn llongyfarch ein economegwyr iechyd sydd wedi cael dyrchafiad yn gynnar yn eu gyrfa ac yn ffarwelio â chydweithwyr sydd wedi symud i gyfleoedd newydd. Mae **WHESS yn parhau i feithrin galluogrwydd mewn lleoliadau academaidd, ymarfer a masnachol i ddiwallu'r angen cynyddol am economeg iechyd** mewn maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n newid yn barhaus. Rydym yn cynhyrchu gwybodaeth a all gael effaith bositif drwy ein cyhoeddiadau a'n cyflwyniadau i gymheiriaid, y cyhoedd a phenderfynwyr.

Wrth i syniadaeth economeg iechyd barhau i ddylanwadu ar genhadaeth asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol, yr hyn sy'n gyson yn ein holl weithgarwch yw cydweithredu. Hoffem ddiolch i'n cydweithredwyr yn y gorffennol a'r presennol gan groesawu rhai newydd, sy'n cynnwys ein bwrdd cynghori estynedig, a all gael eu calonogi gan ein cyflawniadau wrth inni **symud i gyfnod newydd mewn economeg iechyd yng Nghymru ac Economeg iechyd a Gofal yng Nghymru.**

# Cyflwyniad

Cafodd **Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS)** ein ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac yn awr rydym yn edrych i'r dyfodol o dan yr enw **Economeg Iechyd a Gofal Cymru.** Yn y tair blynedd nesaf, fel rhan o ddyfarniadau'r grŵp seilwaith newydd, byddwn yn ymdrechu i gyflawni ein uchelgais i gynnal gwaith ymchwil a datblygu o safon ryngwladol, gyda'r nod o gael effaith bositif ar iechyd, llesiant a ffyniant pobl Cymru.

**Rydym yn falch o gael ein gweld fel esiampl o weithio cynhwysol a chydweithredol, sy'n darparu cymorth ac arbenigedd economeg iechyd i'r gymuned iechyd a gofal yng Nghymru**.

Mae'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru'n dal i wynebu heriau ariannol, gyda heriau newydd enfawr yn deillio o'r angen i ymateb i'r pandemig Covid-19 eleni. **Mae hyn yn tanlinellu'r angen brys i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n adnoddau iechyd a gofal prin.** Mae angen tystiolaeth o gost effeithiolrwydd ein technolegau, ymyriadau a gwasanaethau i ddarparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.

Rydym yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol ac unigryw at gynhyrchu'r sylfaen dystiolaeth sy'n helpu darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Yr her yn awr yw sut mae **defnyddio adnoddau cyfyngedig i gael y budd a'r gwerth mwyaf i bobl Cymru.**

## CENHADAETH WHESS

*"Ein cenhadaeth yw cefnogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a, thrwy gynhyrchu tystiolaeth a defnydd o 'egwyddorion economaidd', goleuo a gwella prosesau penderfynu mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru."*



*Ymchwilwyr WHESS yng Nghyfarfod Blynyddol Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) 2018, Gregynog.*

# Ein Gweithgarwch

**Mae syniadaeth economeg iechyd, a dulliau cadarn, arloesol yn hanfodol i gynnal ein GIG drwy gyfnod y pandemig Covid-19 a thu hwnt.** Mae gennym felly rôl fwy nag erioed i'w chwarae drwy gyfrannu at bolisi iechyd a gofal drwy gydweithio mewn ymchwil a thrwy gyfrannu at brosesau penderfynu.

Mae'r angen am gyfraniad economeg iechyd cryf yn ychwanegu gwerth at ansawdd ac effaith ymchwil iechyd a gofal. Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) a chyrff Asesu Technoleg Iechyd (HTA), ymhlith cyrff cyllido eraill yn y DU, **angen ymchwilio i effeithiolrwydd ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol newydd a phresennol, a'u gwerth am arian.**

Rydym yn arbennig o ddiolchgar am gyfraniad ein cynrychiolydd y cyhoedd, Karen Harrington, a ymunodd â ni fel cyd-ymgeisydd ar ein cais cyllido ar gyfer Economeg Iechyd a Gofal Cymru.

## A wyddoch chi…?

Yn 2019/20, cynhaliodd tîm WHESS dros **690 o sesiynau cymorth** gydag ymchwilwyr iechyd academaidd, ymchwilwyr GIG a gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol yng Nghymru a phartneriaid masnachol i ddatblygu ceisiadau tendro mawr a phrosiectau bach.

**Roedd gweithgarwch yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:**

- Gweithio â'n cydweithwyr mewn grwpiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eraill ac Unedau Treialon Clinigol yng Nghymru i **helpu â cheisiadau am gyllid**.
- Darparu cymorth economeg iechyd pwrpasol i'r Gwasanaethau Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) yng Ngogledd a Chanolbarth, De Orllewin a De Ddwyrain Cymru. Eleni, roeddem wedi **cynorthwyo 10 o geisiadau i Ymchwil ar gyfer Budd i Gleifion a'r Cyhoedd a Chynllun Llwybr i Bortffolio 2019 Ymchwil ac Iechyd a Gofal Cymru**. Rydym hefyd wedi darparu **420 awr o gymorth** drwy'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil.
- Ymgysylltu â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdodau Lleol i roi cyngor a chymorth economeg iechyd a oedd yn amrywio o **godi ymwybyddiaeth o economeg iechyd i ymgymryd â gwaith a gomisiynwyd i gynhyrchu tystiolaeth i ddatblygu gwasanaethau.**
- Cydweithio â'r trydydd sector a chwmnïau masnachol, gan gynnwys cymorth â cheisiadau am gyllid i **hybu datblygiad a gwerthusiad technolegau iechyd fforddiadwy ac effeithiol.**
- Darparu cymorth economeg iechyd i wneud penderfyniadau a llunio polisïau yng Nghymru i **sicrhau cynaliadwyedd iechyd a gofal cymdeithasol.**
- Meithrin gallu economeg iechyd yng Nghymru.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ymchwil economeg iechyd.

# Meithrin Gallu Economeg Iechyd

Un o'n prif amcanion fel WHESS oedd meithrin galluogrwydd ac arbenigedd economeg iechyd yng Nghymru drwy feithrin ein tîm talentog. Mae gennym enw da am **hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o economegwyr iechyd,** sy'n deillio'n rhannol o'r cymorth a gafwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae hyn wedi sicrhau swyddi parhaol i lawer o'n ymchwilwyr ac wedi arwain at sawl dyrchafiad o ddarlithydd i athro i staff sydd wedi'u cefnogi gan WHESS.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, buom yn rhoi pwyslais ar **feithrin cymuned economeg iechyd** y tu hwnt i'n unedau academaidd, i alluogi economegwyr iechyd, neu'r sawl sy'n defnyddio eu cefndir mewn economeg iechyd yn eu rolau proffesiynol, i gydweithio ac i rannu eu profiadau â'n ymchwilwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae hyn yn dod ag economegwyr iechyd o'r Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), Technoleg Iechyd Cymru (HTW), Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru at ei gilydd fel rhan o un gymuned rithiol.

Daeth ein cyfarfod o **Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) â'r gymuned at ei gilydd** ym Mhrifysgol Bangor eleni (rhagor ar dudalennau 30-31). Cafodd y trafodaethau â Matthew Prettyjohns a Tom Winfield (economegwyr iechyd yn HTW) a Rajendra Kadel (economegydd iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru) mewn sesiwn yn y bore a neilltuwyd i'w gwaith yn eu sefydliadau eu hunain eu gwerthfawrogi'n fawr.

Rydym yn falch hefyd i groesawu Brendan Collins, Prif Economegydd Iechyd Llywodraeth Cymru, ar ein Bwrdd Cynghori, a bydd yn profi ac yn herio ein cynnydd yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn **rhoi cyngor gwerthfawr** ar ein strategaeth ymchwil.

"Mae economeg iechyd wedi bod yn **bwysig erioed wrth ddylunio a darparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru** ond mae'n hanfodol yn awr wrth inni symud ymlaen a gweithio i leihau i niwed iechyd a'r economi o ganlyniad i'r coronafeirws."

**Dr Brendan Collins**
Pennaeth Economeg Iechyd Llywodraeth Cymru




*Matthew Prettyjohns yn rhannu cylch gorchwyl Technoleg Iechyd Cymru yng nghyfarfod WHEG ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref 2019.*

# Ein Ymchwilwyr

Mae cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i WHESS yn rhannol gynnal 20 o ymchwilwyr a staff gweinyddol llawn a rhan amser ledled Cymru.

Mae'r staff yn rhan o'r ddwy uned economeg iechyd academaidd yng Nghymru: y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) ym Mhrifysgol Bangor a Chanolfan Economeg Iechyd Abertawe (SCHE) ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae gan ymchwilwyr WHESS ystod eang o sgiliau a phrofiad i ymgymryd â'n gweithgarwch ar draws yr ystod lawn o dreialon, astudiaethau a gweithgaredd rydym yn cymryd rhan ynddynt.

**Yn 2019/20, roedd cyflawniadau ein hymchwilwyr yn cynnwys:**

- Mae'r **Athro Deb Fitzsimmons,** sydd wedi bod yn aelod pwysig o WHESS ers dros 10 mlynedd, yn awr yn gyfrifol am lywio **Economeg Iechyd a Gofal Cymru** fel Cyd-gyfarwyddwr newydd.
- Penodwyd **yr Athro Rhiannon Tudor Edwards** yn Athro Economeg Iechyd er Anrhydedd yn Institute of Population Health Sciences, Prifysgol Lerpwl, **sy'n cryfhau'r cysylltiadau ymchwil** rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.
- Roedd **Dr Mari Jones** a **Dr Berni Sewell** ar y rhestr fer yn rownd derfynol y categori **"Effaith neilltuol ar iechyd a llesiant"** yng Ngwobrau Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Abertawe am eu gwaith cydweithredol â thîm y Ganolfan Diagnosis Cyflym.
- Ymunodd **yr Athro Dyfrig Hughes** â thîm Economeg Iechyd a Gofal Cymru gan ddod â'i arbenigedd mewn ffarmacoeconomeg i helpu i ffurfio dyfodol economeg iechyd Cymru.
- Mae **Dr Nathan Bray** a **Dr Carys Jones** wedi gwneud cynnydd gyda'u cymrodoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym meysydd **mesur ansawdd bywyd mewn symudedd sy'n gysylltiedig ag iechyd** a rôl y trydydd sector mewn **cynorthwyo gofalwyr pobl â dementia**, yn y drefn honno.
- Trefnodd **Dr Llinos Haf Spencer** ddau ddigwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd i **ddathlu economeg iechyd fel rhan o'r ŵyl ymchwil gwyddorau cymdeithas** (tudalen 19).

**A wyddoch chi…?**

Un o'r meysydd pwysicaf a mwyaf unigryw lle mae WHESS yn cynnig cyngor profiadol seiliedig ar angen a chyngor economeg iechyd yw i sefydliadau iechyd a gofal a'r GIG.

**Yn 2019/20, roedd hynny'n cynnwys:**

160 awr o gymorth i **Dechnoleg Iechyd Cymru**

45 awr o gymorth i **Grŵp Economeg Iechyd Therapi Celloedd a Genynnau GIG Cymru**

130 o gymorth i **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau a Grŵp Meddyginiaethau Newydd Cymru Gyfan**

125 o gymorth i **Fwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth GIG Cymru**

50 o gymorth i **Grŵp Comisiynu Llwybrau Dros Dro GIG Cymru**

Mae penderfyniadau a wnaed gan y cyrff hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth iechyd a gofal i bobl Cymru ac rydym yn ymfalchïo bod ein cyfraniad yn helpu Cymru mewn ffordd mor ystyrlon.

Rwyf wrth fy modd cael ymuno â Rhiannon fel Cyd-gyfarwyddwr Economeg Iechyd a Gofal Cymru am y tair blynedd nesaf i barhau â'n cymorth i Lywodraeth Cymru, Sefydliadau Iechyd a Gofal a'r GIG yng Nghymru a thu hwnt.



**Deb Fitzsimmons**
*Cydweithredydd WHESS a Chyd-gyfarwyddwr Economeg Iechyd a Gofal Cymru*

Eleni, rwyf wedi mwynhau cynghori gweithgor, cryfhau'r cydweithrediad rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor. Rydym hefyd wedi bod yn trafod dyfodol addysg feddygol yng Ngogledd Cymru.



**Rhiannon Tudor Edwards**
*Cyfarwyddwr WHESS a Chyd-gyfarwyddwr Economeg Iechyd a Gofal Cymru*



# Pecynnau a Themâu Gwaith

Mae ein gwaith wedi'i rannu'n ddau brif faes a elwir yn becynnau gwaith. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar bedair thema sy'n torri ar draws y ddau becyn gwaith.

## Pecyn Gwaith 1: Cynorthwyo Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae ein gwasanaeth economeg iechyd yn helpu prosesau penderfynu ac ymarfer a lledaenu ymchwil. Mae'n cynnwys cyflwyno a chymhwyso 'syniadaeth economeg iechyd', gan ddod â gwybodaeth am fframweithiau economeg iechyd a dulliau ymchwil a gwerthuso. Mae hyn yn hwyluso blaenoriaethu, dyrannu adnoddau, dylunio prosiectau ymchwil a gwerthuso, a dadansoddi data'r sefydliad.

Rydym yn gwneud hyn mewn dwy brif ffordd:

1. **Darparu cyngor uwch i bwyllgorau penderfynu a llunio polisi** gan gynnwys:
    - Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)
    - Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth (EBPB)
    - Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
    - Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
    - Dyfarniadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Phanelau Grant er Budd i Gleifion a'r Cyhoedd

2. **Darparu unedau cynghori wedi'u targedu ac sy'n seiliedig ar angen, a gweithdai ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd** gan gynnwys…
    - Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolwyr
    - Awdurdodau Lleol
    - Iechyd Cyhoeddus Cymru
    - Timau Llywodraeth Cymru

Rydym yn cynnig cyngor un i un sy'n amrywio o gyngor cyffredinol, gweithdai ar sut i ddefnyddio a chymhwyso syniadaeth a dulliau economeg iechyd i gyflwyno ceisiadau a thendrau i gomisiynu gwasanaethau ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth,

## Gweithgarwch Pecyn Gwaith 1 yn 2019/20:

- Mae Dr Pippa Anderson a'r Athro Deb Fitzsimmons wedi parhau i gynorthwyo'r Grŵp Meddyginiaethau Newydd fel Economegydd Iechyd Arweiniol a Dirprwy Economegydd Iechyd.
- Mae Dr Pippa Anderson yn cynorthwyo'r Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth ar ei ddau bwyllgor a Grŵp Asesu Technoleg Iechyd Cymru (gyda'r Athro Deb Fitzsimmons fel dirprwy aelod).
- Mae Dr Pippa Anderson yn cynorthwyo Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru.
- Mae'r Athro Deb Fitzsimmons wedi parhau i gynorthwyo CReST Cymru, bwrdd goruchwylio'r strategaeth ar gyfer **datblygu Strategaeth Canser Genedlaethol ddiwygiedig i Gymru**.
- Mae Dr Berni Sewell a Dr Jo Charles wedi cynorthwyo Grŵp Comisiynu Llwybrau Dros Dro Un Gymru.
- Mae Dr Pippa Anderson a Dr Berni Sewell wedi cynorthwyo Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWSMG) yn eu diwrnod hyfforddi ar 15 Ionawr 2020.
- Mae Julia Lowin a Dr Pippa Anderson yn parhau i gynorthwyo gwaith y Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth.
- Fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth cyfredol â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), mae Dr Pippa Anderson, yr Athro Dyfrig Hughes a'r Athro Deb Fitzsimmons yn gweithio ar brosiect a gomisiynwyd i **ddatblygu fframwaith dadfuddsoddi ar gyfer meddyginiaethau,** gan ategu amcanion strategol AWSMG. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd AWSMG ym Mehefin 2020.
- Lansiodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Dr Llinos Haf Spencer, Bethany Anthony, a Lucy Bryning yr adroddiad "Lles mewn gwaith", a gynhyrchwyd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Bydd Dr Carys Jones yn arwain y gwerthusiad academaidd i astudiaeth blwyddyn o hyd i **werthuso addasrwydd a hyfywedd model cylchdro o Ymarferwyr Parafeddygol Uwch mewn gofal sylfaenol,** a ariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Yr adroddiad "Lles mewn gwaith" a gyhoeddwyd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.



## Pecyn Gwaith 2: Datblygu Gweithlu ac Arbenigedd Economeg Iechyd Cymru Gyfan i gynorthwyo'r gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Rydym yn gweithio i hybu twf cymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynhyrchu ymchwil ac allbynnau rhagorol, gyda chylch gwaith penodol i ddatblygu gallu a galluogrwydd o fewn arbenigedd economeg iechyd. Mae hyn yn effeithio ar y ffordd mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu ac mae iechyd, llesiant a ffyniant pobl Cymru yn elwa.

Rydym yn gwneud hyn mewn tair prif ffordd:

1. **Rydym yn datblygu cymuned gref, gydlynus a chynaliadwy o economegwyr iechyd** er mwyn darparu cymorth economeg iechyd.

2. **Rydym yn gweithio drwy'r Gwasanaethau Cynllunio a Chyflawni Ymchwil** i ddarparu cymorth cydradd mewn economeg iechyd ledled Cymru.

3. **Rydym yn cydweithio ag unedau treialon clinigol, Canolfannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac ymchwilwyr eraill ledled Cymru** i alluogi i economeg iechyd i gael ei chynnwys ym mhob ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, o ddatblygiad cynigion i ledaenu'r canlyniadau terfynol.



*Dr Berni Sewell yn cyflwyno gweithdy Economeg Iechyd 101 i 55 o weithwyr proffesiynol y GIG, penderfynwyr a'r cyhoedd mewn cydweithrediad â Thechnoleg Iechyd Cymru a'r Hwb Gwyddorau Bywyd, Bae Caerdydd.*

Mi wnes fwynhau cydweithio â thîm Gwasnaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil y De Ddwyrain ar eu Diwrnod Ysgrifennu yng Nghaerdydd ym mis Medi 2019. Mae **cynorthwyo gweithwyr proffesiynol y GIG ac ymchwilwyr clinigol i ffurfio eu syniadau am ymchwil yn rhoi boddhad mawr,** gan ymgorffori economeg iechyd o ddechreuad ymchwil newydd a gweld eu syniadau dechreuol yn dwyn ffrwyth mewn cais am gyllid sydd â'r potensial i gael effaith ar ymarfer iechyd a gofal yng Nghymru a thu hwnt.



**Berni Sewell**
*Cyd-ymchwilydd WHESS*

## Roedd Gweithgareddau Pecyn Gwaith 2 yn 2019/20 yn cynnwys

- Roedd ymchwilwyr WHESS yn gydymgeiswyr yn yr astudiaethau Kemp et al. (RfPPB-18-1502) a Morgan et al. (HRG-18-1494) a dyfarnwyd yng Ngorffennaf 2019.
- Bu ymchwilwyr WHESS yn cydweithio ag unedau treialon clinigol a grwpiau seilwaith eraill Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru **i gyflwyno 10 cais am grant** i rownd gyllido 2019 Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd a'r cynllun Llwybr i Bortffolio.
- Cyflwynodd Dr Jo Charles a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards, ar y cyd â Phrifysgol Lerpwl a London City University ac Ysbyty Menywod Lerpwl dri chais gyda'r nod o **wella gofal amenedigol i staff a menywod sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma (PTSD) yn dilyn genedigaeth drawmatig.**
- Mae'r Athro Rhiannon Tudor Edwards yn Athro er Anrhydedd yn Lerpwl ac yn sgil y cyfleoedd hyn i gydweithredu mae wedi uno dau gais i baneli NIHR, un yn ymwneud â **systemau diogelwch bwyd a chlefydau anhrosglwyddadwy,** ac un ar **effaith incwm ar iechyd meddwl** mewn ardal ddifreintiedig yn Lerpwl.
- Bu Dr Carys Jones yn rhannu canfyddiadau'r astudiaeth Canolfan Iechyd (gweler tudalen 23). Roedd yr astudiaeth yn gwerthuso effaith rhagnodi cymdeithasol ar raglen gweithgarwch corfforol ar **iechyd a llesiant pobl hŷn â chyflyrau iechyd cronig**.

Eleni rwyf wedi canolbwyntio ar fesur 'llesiant' – gair syml sydd, o edrych arno'n fanwl, â sawl ystyr gwahanol i wahanol bobl. Gan ddibynnu a ydych yn aelod o'r cyhoedd, yn glaf, yn economegydd, yn seicolegydd neu'n wleidydd, gall yr ystyr fod yn wahanol. Dyna sy'n braf am y swydd … mynd i wraidd yr hyn sy'n bwysig i bobl yw gwir bwrpas polisi iechyd a gofal.



**Pippa Anderson**
*Cyd-ymchwilydd WHESS*



*Digwyddiad lledaenu canfyddiadau'r Astudiaeth Canolfan Iechyd yng Nghanolfan Digwyddiadau Parc Eirias, Bae Colwyn, Ionawr 2020.*

## Thema drawsbynciol 1: Ymgysylltu a Chydweithio Masnachol

Mae'r thema hon yn dwyn ynghyd randdeiliaid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (e.e. Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau) i gydweithio â mentrau masnachol sy'n datblygu cynnyrch a gwasanaethau mewn Gwyddorau Bywyd a Gofal Cymdeithasol.

Rydym yn helpu i ganfod cyfleoedd ymchwil a gwerthuso economeg iechyd a sicrhau cyllid i gynllunio, cynnal a dadansoddi prosiectau sy'n galluogi i **dechnolegau a gwasanaethau gael eu asesu o ran eu gwerth i wella iechyd a llesiant pobl Cymru**.

**Yn 2019/20, roedd ein partneriaethau yn cynnwys:**

- Roedd Dr Pippa Anderson yn rhan o gais i **ddatblygu a phrofi dull diagnostig yn achos Diabetes Mellitus math II** ar lefel boblogaeth gydag Uned Ymchwil Diabetes Cymru i Innovate UK.
- Mae'r Athro Rhiannon Tudor Edwards a Dr Nathan Bray yn cwblhau gwerthusiad lled fasnachol sy'n cael ei ariannu gan yr UE o'r esgid FLOW-OX i **drin cleifion ag isgemia aelodau isaf y corff.**
- Mae Dr Pippa Anderson yn cynnal trafodaethau ag Ysgol Rheolaeth Prifysgol Abertawe i ehangu gwaith sy'n cael ei ariannu gan Pfizer UK a Pfizer Inc. i gynnwys economeg iechyd fel rhan o **ddatblygiad Is-adran ar gyfer Addysg Weithredol mewn Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth.**

Cwblhaodd Bethany Anthony, yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Dr Victory Ezeofor a minnau'r astudiaeth Butterfly, cydweithrediad llwyddiannus ag Ysbyty Menywod Lerpwl i ddatblygu **dyfais newydd i atal gwaedlif ôl-esgor,** a ariannwyd gan NIHR.



**Lucy Bryning**
*Swyddog Ymchwil WHESS*

### A wyddoch chi…?

Yn 2019/20, neilltuodd WHESS **420 o oriau ymchwil** drwy Wasanaethau Cynllunio a Chynnal Ymchwil Cymru, a rhoddwyd dros **500 awr o gymorth uwch i gynorthwyo pwyllgorau penderfynu a pholisi yng Nghymru.**

### A wyddoch chi…?

Yn ystod 2019/20, bu ymchwilwyr WHESS yn cynorthwyo 34 o geisiadau am gyllid grant ymchwil o Gymru a buont yn cydweithio ar 55 o brosiectau ymchwil o dan arweiniad ymchwilwyr o Gymru. Rydym wedi helpu **i gynhyrchu dros £1.2 miliwn o incwm ymchwil** yng Nghymru.

## Thema drawsbynciol 2: Ymgysylltu â'r seilwaith ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Rydym yn cydweithio â grwpiau seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru drwy eu helpu â'u gweithgarwch lle mae angen cymorth economeg iechyd. **Mae hyn yn cynnwys:**

- Cynrychioli WHESS mewn cyfarfodydd Penaethiaid Canolfannau ac Unedau ac yng nghyfarfodydd Cyfarwyddwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Darparu unedau cyngor ar economeg iechyd i ymchwilwyr yng Nghanolfan ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal – o godi ymwybyddiaeth i gynorthwyo datblygu ymchwil.
- Gweithio ag Unedau Treialon Clinigol, Canolfannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddatblygu ceisiadau am gyllid ymchwil fel cyd-ymchwilwyr.
- Cynorthwyo i ledaenu canfyddiadau ymchwil gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae hyn yn bwysig i ddod ag incwm ymchwil i Gymru, i greu swyddi ymchwil a chyfrannu at enw da'r ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n digwydd yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, **a all gael effaith wirioneddol ar iechyd cleifion a'r boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol.**

**Roedd gweithgarwch yn 2019/20 yn cynnwys:**

- Gan weithio â PRIME, ochr yn ochr â Gofal Canser Tenovus a Phrifysgolion Leeds a Sheffield, mae Dr Berni Sewell yn gyd-ymchwilydd ar gais grant Cam 4 ABACus i werthuso ymyriad i newid ymddygiad wedi'i dargedu i **gynyddu ymwybyddiaeth o ganser ymhlith oedolion sy'n byw mewn cymunedau sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.**
- Mae Dr Pippa Anderson, ar y cyd â'r Ganolfan Treialon Ymchwil ac Ymddiriedolaeth GIG St George, wedi cyflwyno cais am grant ymchwil **i werthuso rhaglen adsefydlu arloesol ar gyfer cleifion strôc** fel cais cam dau i NIHR.
- Gwahoddwyd Dr Berni Sewell i gydweithio â'r **BRAIN Unit a rhwydwaith clefyd Huntington Prifysgol Caerdydd** fel economegydd iechyd arweiniol.
- Penodwyd Katherine Cullen fel economegydd iechyd annibynnol i Bwyllgor Llywio **Astudiaeth Argyfwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS),** o dan arweiniad Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Iechyd Meddwl yn dangos yr angen am wasanaethau effeithiol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd meddwl plant a'r glasoed. Fel aelod o grŵp cynghori rhanddeiliaid astudiaeth CAHMS, mae gen i gyfle gwych i gydweithio â'r tîm prosiect, gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl, cleifion a gofalwyr **i arwain a chefnogi'r prosiect hwn ac i feithrin perthynas waith glos** rhwng Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd.



**Katherine Cullen**
*Economegydd Iechyd WHESS*

## Thema Drawsbynciol 3: Cyfleu a Throsglwyddo Gwybodaeth

Rydym yn lledaenu ein hymchwil drwy erthyglau mewn cyfnodolion a chyhoeddiadau eraill a adolygir gan gymheiriaid, gan gynnwys adroddiadau a gyhoeddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Hefyd, rydym yn defnyddio ystod o gyfryngau i rannu syniadau cysyniadol a chymhleth â chynulleidfa ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys rhai lle gall termau ymchwil fod yn anghyfarwydd iddynt.

Mae cynnwys ac ymgysylltu eglur â'r cyhoedd yn hanfodol i gyfleu ein gwaith yn effeithiol ac mae'n gwneud ein hymchwil yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd polisi. Rydym felly'n cydweithio â thimau ymchwil a phartneriaid ymhlith y cyhoedd a chleifion sy'n cynorthwyo â'r astudiaethau ymchwil i sicrhau nad yw gwerth y cyfraniad economeg iechyd yn cael ei golli.

**Roedd gweithgarwch yn 2019/20 yn cynnwys:**

- Cyflwynodd Dr Berni Sewell a Dr Pippa Anderson **dri gweithdy Economeg Iechyd 101 gerbron dros 120 o weithwyr proffesiynol y GIG** o amrywiaeth o fyrddau iechyd, ymddiriedolwyr a phwyllgorau yn ogystal â chynrychiolwyr o ddiwydiant a chynrychiolwyr cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion o dan ofal Technoleg Iechyd Cymru (HTW) a'r Hwb Gwyddorau Bywyd ym Mae Caerdydd.
- Yn dilyn llwyddiant cyfres o weithdai a gyflwynwyd drwy HTW Cymru a'r Hwb Gwyddorau Bywyd, mae SCHE wedi'u comisiynu i ddatblygu cyfres arall o weithdai **sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd seiliedig ar werth.**
- Cyflwynodd Dr Ned Hartfiel, Dr Mary Lynch, Dr Nathan Bray a Dr Joanna Charles weithdy undydd ar economeg iechyd i Gyngor Swydd Gaer gydag **ymgynghorwyr iechyd cyhoeddus, rhagnodwyr cymdeithasol a chomisiynwyr gwasanaeth yn bresennol**.
- Roedd Dr Nathan Bray yn ddarlithydd gwadd yng nghynhadledd Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain yn Lerpwl, lle bu'n annerch ar **economeg iechyd mewn dermatoleg** yn y brif sesiwn. Bu hefyd yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil ei gymrodoriaeth yng nghynhadledd y Gymdeithas Economeg Iechyd Rhyngwladol (iHEA) yn Basel, y Swistir.
- Roedd Lucy Bryning yn bresennol mewn symposiwm ar 'Public values and plurality in health priority setting: consistency, coherence and consensus' yn Llundain, ym mis Hydref 2019.

Rydym wedi parhau â'n cydweithrediad llwyddiannus â chydweithwyr yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i ddiweddaru'r dadansoddiad a gynhaliwyd o gost-effeithiolrwydd y Ganolfan Diagnosis Cyflym (RDC) ar gyfer cleifion â symptomau amwys a all fod oherwydd canser. Unwaith eto, roedd yn bleser gweithio â'r tîm RDC.

Cafodd canlyniadau'r astudiaeth gyntaf **eu cyhoeddi yn Chwefror 2020 a'u rhannu'n eang â'r cyfryngau** (gan gyrraedd dros 1 miliwn o bobl). Cymerwyd rhan mewn cyfweliadau â radio a theledu'r BBC a chefais hyd yn oed fy nghynnwys yn y bwletin newyddion Cymraeg min nos.



**Mari Jones**
*Modelydd Economeg Iechyd WHESS*

## Thema drawsbynciol 4: Gofal Cymdeithasol

Mae'n hanfodol bod canlyniadau gofal cymdeithasol yn cael eu diffinio o safbwynt y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr. Mae ein cymorth yn helpu i werthuso gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn dangos inni i ba raddau maent yn ateb y gofynion o ran adnoddau a chostau darparu gofal tymor hir yn y dyfodol wrth i anghenion y boblogaeth dyfu ac esblygu, gan gynnwys gwerth gofalwyr di-dâl sy'n gysylltiedig â gwasanaethau neu ymyriadau gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn helpu sefydliadau gofal cymdeithasol i sicrhau bod y mesurau canlyniadau a ddatblygir ac a ddefnyddir yn briodol.

**Rydym yn darparu cymorth drwy:**

- Canfod a gweithio gyda grwpiau gofal lleol a chenedlaethol i **gyflwyno gwerth ymgorffori persbectif economeg iechyd yn eu syniadau a'u rhaglenni ymchwil**.
- Ymgysylltu ag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi eu gweithgarwch, cyflwyno persbectif economeg iechyd i'w rhaglenni ymchwil a **darparu cymorth â cheisiadau am grantiau**.
- Darparu cyngor i unigolion a grwpiau ar sut i ymgorffori egwyddorion a dulliau economeg i **gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer eu prosesau penderfynu**.
- Arwain a chyfrannu at geisiadau â grwpiau ymchwil eraill i **werthuso ymyriadau a gwasanaethau cymdeithasol a sector cyhoeddus**.

Drwy ddarparu'r cymorth hwn gellir canfod gwerth gofal cymdeithasol, ymchwilio iddo, cofnodi'r data a'u cyfleu fel y bydd modd buddsoddi cyllid gofal cymdeithasol yn ddoeth.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, sefydliadau Cymdeithasol a Thrydydd Sector ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi cyngor a chymorth economeg iechyd a oedd yn amrywio o sesiynau un i un i gynnal gwerthusiadau wedi'u comisiynu i lywio darpariaeth gwasanaethau.

Bu Eira Winrow a minnau'n cyflwyno **sesiwn addysgu ar adenillion cymdeithasol i fuddsoddiad** i Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru, gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r trydydd sector, yn Amgueddfa Lofal Genedlaethol Cymru yn y Big Pit, ym Mlaenafon, Torfaen ym mis Medi 2019.



**Ned Hartfiel**
*Swyddog Ymchwil WHESS*

Mae'r Athro Rhiannon Tudor Edwards a minnau'n gweithio â Chymorth i Fenywod a Bywydau Diogelach drwy gynllun y Loteri Fawr i werthuso ffyrdd o **ddarparu cymorth i atal a rheoli trais domestig.**



**Eira Winrow**
*Swyddog Ymchwil WHESS*

# Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd

Mae WHESS yn gweithio â chleifion a'r cyhoedd, a hynny'n bennaf fel rhan o dimau ymchwil, i gynhyrchu, lledaenu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd uchel i helpu i wneud y dewisiadau gorau i gleifion a'r cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt.

**Mae ein prif weithgarwch i ymestyn at y cyhoedd yn cynnwys:**

- Sicrhau ymgynghori cyhoeddus drwy ein hymchwil, e.e. **drwy weithio â chyfranwyr cyhoeddus ar ein adroddiad 'Lles mewn gwaith'**, a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Gweithio fel rhan o dimau treialon a phrosiectau lle mae **cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn weithgarwch craidd.** Cafodd hyn ei hyrwyddo mewn sawl prosiect, fel Prosiect Bws Gwynedd, yr astudiaeth Canolfan Iechyd, prosiect Adolygu Tystiolaeth Symudedd Cynnar a Chadeiriau Olwyn Modur (EMPoWER), astudiaeth Patient Centred Benefit Risk Assessment of Treatment for Colorectal Liver Metastases (PaCT_CRLM), a'r Prosiect Symudedd ac Ansawdd Bywyd (MobQoL).
- Goruchwylio dau fyfyriwr PhD sy'n edrych ar yr hyn sydd bwysicaf i gleifion mewn gwasanaethau canser a sut y gellid ymgorffori gwerthoedd cleifion a dinasyddion mewn rhaglenni gweithredol **i gynorthwyo pobl sy'n byw â chanser (tudalen 26)**. Mae'r prosiectau arloesol hyn yn dangos sut y gall Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd lywio a ffurfio syniadaeth a dulliau economeg iechyd.
- **Rhoi hyfforddiant a phrofiad i'n hymchwilwyr i gynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd** yn ein gwaith, e.e. yn ystod yr Ŵyl Gwyddorau Cymdeithas ym Mhrifysgol Bangor (tudalen 19) ac ymgysylltu â'r cyhoedd i ddatblygu crynodebau lleyg ar gyfer ceisiadau am gyllid.
- **Codi ymwybyddiaeth o economeg iechyd drwy fynychu digwyddiadau a darparu hyfforddiant** fel gweithdai yng ngofal Technoleg Iechyd Cymru a'r Hwb Gwyddorau Bywyd sy'n agored i'r cyhoedd, a'r Ŵyl Gwyddorau Cymdeithas.

*Cynrychiolydd Cynnwys y Cyhoedd yn helpu i ledaenu canfyddiadau'r Prosiect Canolfan Iechyd yn y digwyddiad lledaenu yng Nghanolfan Digwyddiadau Parc Eirias, Bae Colwyn, Ionawr 2020.*



## Ymgysylltu â chleifion a’r cyhoedd: Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC

Fel rhan o Ŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC ar 7 Tachwedd 2019, bu ymchwilwyr WHESS ym Mhrifysgol Bangor, ynghyd â Karen Harrington, ein cynrychiolydd cynnwys ac ymgynghori â’r cyhoedd, yn cyd-drefnu **digwyddiadau am ddim i ymgysylltu â’r cyhoedd i rannu ymchwil economeg iechyd** i ragnodi cymdeithasol a lles yng Nghymru ac i helpu i ffurfio cyfeiriad prosiectau ymchwil y dyfodol.

Roedd y digwyddiadau’n gysylltiedig â phob un o’r pedair thema ‘symud Cymru ymlaen’ sydd yn y Strategaeth Genedlaethol ‘Ffyniant i Bawb’, gan gynnwys ‘Ffyniannus a Diogel’, ‘Iach ac Egnïol’, ‘Uchelgeisiol ac yn Dysgu’ ac ‘Unedig a Chysylltiedig’. Roedd yn gyfle i bobl leol ddarganfod, dadlau a thrafod ymchwil mewn gwyddorau cymdeithasol a chael cipolwg ar waith economegwyr iechyd a phwysigrwydd iechyd a gofal cymdeithasol seiliedig ar werth.

**Roedd y cyflwyniadau yn y digwyddiad yn cynnwys:**

- Cyflwyniad gan Dr Ned Hartfiel ar werthuso’r prosiect Canolfan Iechyd ym Mae Colwyn (ariannwyd y gwerthusiad gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru). Roedd dau aelod o’r cyhoedd ar fwrdd cynghori’r prosiect.
- Uchafbwyntiau gwaith Dr Nathan Bray, Dr Lorna Tuersley a Dr Carys Jones gyda chyllid gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar atal drwy drywydd bywyd gan gynnwys Gweddnewid bywydau ifanc, Byw yn dda yn hirach, a Lles mewn gwaith.
- Cyflwyniad Dr Leah McLaughlin a Dr Joanna Charles ar eu prosiect ar ddewisiadau dialysis.

Roedd yn ddigwyddiad buddiol dros ben a oedd yn tynnu sylw at yr ymchwil blaengar sy’n digwydd yma yng Nghymru. Roedd y dystiolaeth o ymchwil yn dangos **effaith bositif presgripsiwn cymdeithasol ar lesiant uniaolion**.



**Karen Harrington**
*Cynrychiolydd Cynnwys y Cyhoedd, WHESS*



*Rhiannon Tudor Edwards yn myfyrio ar economeg iechyd gofalu trwy’r cwrs bywyd yng Ngŵyl Gwyddorau Cymdeithas yr ESRC.*

# Ein Prif Gyflawniadau

Cawsom flwyddyn gynhyrchiol iawn yn 2019/20. Rhoddwyd pwyslais ar atgyfnerthu ein gweithgarwch cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, parhau â chymorth uwch, seiliedig ar angen i sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru a chynyddu ein presenoldeb ar lwyfannau ymchwil Cymru a'r DU. Buom hefyd yn gweithio'n galed ar lunio cais cyllido llwyddiannus ar gyfer y tair blynedd nesaf fel Economeg Iechyd a Gofal Cymru.

**Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos ein cyflawniadau.**

## Cynorthwyo cydweithwyr clinigol ar Myrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Roeddem yn falch o gael cefnogi'r astudiaeth PLACEMENT, treial hyfywedd o dan arweiniad Mr Chris Twine, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y Ganolfan Ymchwil Treialon a chydweithwyr **i werthuso'r defnydd o gathetrau anesthetig periniwral i leihau poen yn dilyn llawdriniaethau** i bobl sy'n cael torri aelodau isaf y corff.

Buom yn ymchwilio i gost yr ymyriad a'i effaith ar y defnydd o adnoddau gofal iechyd, ac yn edrych ar y buddiannau posibl i gleifion i wella ansawdd bywyd.

Rydym yn awr yn edrych ymlaen at ddatblygu cymhwysiad ar gyfer treial effeithiolrwydd llawn.

## Anrhydeddau a Gwobrau




*Mari Jones a Berni Sewell yn seremoni wobrwyo Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Abertawe, gyda thîm Canolfan Diagnosis Cyflym Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ionawr 2020.*

Penodwyd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards yn Athro er Anrhydedd yn yr Institute for Population Health Sciences ym Mhrifysgol Lerpwl. Dyfarnwyd iddi hefyd wobr cymorth ymchwil Gyrfa Cynnar o dan arweiniad Ymchwilydd 2019 Sefydliad Ymchwil a Meddygol Bangor.

Cyrhaeddodd tîm SCHE restr fer Gwobr Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Abertawe am eu cydweithrediad â'r Ganolfan Diagnosis Cyflym (RDC) ar gyfer canser.

## Cynorthwyo'r rhaglen trawsnewid i ofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol yng Nghymru

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS eich helpu i'w ateb?

Mae staff ymchwil a gwerthuso WHESS wedi cael enw da am ddarparu gwasanaeth ymchwil ac ymgynghori o'r radd flaenaf i sefydliadau yn y sector gofal iechyd. Rydym yn cynorthwyo sefydliadau'r GIG â phob math o dasgau o werthuso dulliau cymysg i fodelu economaidd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae Dr Liv Kosnes wedi datblygu a chyflwyno Gweithdai Gwerthuso a Modelau Rhesymeg i amryw o dimau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cawsant eu canmol am eu natur unigryw a'r agenda meithrin galluo a'r dulliau addysgu a dysgu a oedd wedi'u profi ac a oedd yn cynnwys sicrwydd ansawdd. Nod y gweithdai hyn oedd rhoi'r gallu i'r cyfranogwyr i'w helpu i gynllunio eu gwasanaethau a'u rhaglenni **ac i ddeall beth yn union yw gwerthuso (neu ddim) a pha ddulliau a ellir eu defnyddio i gyflwyno tystiolaeth gadarn** y gall gwneuthurwyr penderfyniadau a gweithwyr iechyd proffesiynol ei defnyddio mewn cyd-destunau lleol yn y byd go iawn.

### Beth wnaethom ni?

Bu Dr Liv Kosnes a Rhys Pockett yn gweithio gyda'r Hwb Gofal Sylfaenol i ddatblygu adnoddau dysgu ar gyfer pum gweithdy, a gynhaliwyd ledled Cymru. Dysgodd staff gofal sylfaenol sut i ddefnyddio modelau rhesymeg a sut i ganfod dangosyddion ar gyfer mesuriadau i fframio datblygiad rhaglenni a hwyluso gwerthuso cynhwysfawr, ynghyd â **hyder a gallu i gyfleu nodau gwerthuso clir, amcanion a dylunio gwerthusiadau da.** Cafodd y gweithdai eu ategu gan glinigau un i un a chyngor ar ddatblygu a gwerthuso prosiectau penodol.

### Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Cafodd y gweithdai adborth ardderchog, sy'n awgrymu bod y canlyniadau tymor byr, sef **mwy o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, cynllunio gwell, ychwanegu at ddatblygu gallu, a hunan effeithiolrwydd i ymgymryd â gwaith gwerthuso** wedi'u cyflawni. Bydd canlyniadau mwy tymor hir yn cael eu cofnodi ar ôl olrhain cyfranogwyr.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r argymhellion a wnaed yn arfarniad beirniadol y rhaglen Pacesetter ac ystod ehangach o ddogfennau canllaw a pholisi yng Nghymru fel 'Nod Pedwarplyg', 'Ffyniant i Bawb' (yn benodol, darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol; sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid), 'Cymru Iachach' a'r adolygiad seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Un o amcanion WHESS yw meithrin a datblygu gallu o fewn arbenigedd economeg iechyd. Yn y flwyddyn a aeth heibio, mi wnes fwynhau cydweithio â'r Hwb Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn y gweithdai hyn ledled Cymru. Rydym wedi cyflwyno syniadaeth a fframweithiau economeg iechyd i ymchwil a gwerthuso er mwyn **meithrin gallu unigolion a sefydliadau i ddefnyddio gwerthuso i wella canlyniadau.**



**Liv Kosnes**
*Tîm Rheoli WHESS*

## Gweithio ledled y DU:
## Ein cyfraniad at raglenni ymchwil cenedlaethol

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS helpu i'w ateb?

Mae gan ymchwilwyr WHESS enw da am eu gwaith â phrif grwpiau ymchwil y DU mewn sefydliadau gofal cymdeithasol a thrydydd sector mewn nifer o feysydd gan gynnwys dementia, asthma a Sglerosis Ymledol (MS). Rydym wedi cael canmoliaeth am ein **gwaith ag un o'r prif grwpiau ymchwil, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Nottingham a'r Nottingham NHS Trust mewn ymyriadau niwroseicolegol**. Yng nghyfnod cyllido cyfredol WHESS, rydym wedi cyfrannu a darparu gwerthusiadau economeg iechyd pwysig at ddau dreial gan NIHR HTA i gael tystiolaeth o gost effeithiolrwydd i hysbysu gwneuthurwyr penderfyniadau, comisiynwyr gwasanaeth, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd o werth yr ymyriadau hyn.

### Beth wnaethom ni?

Rydym wedi darparu cymorth ac arbenigedd ac rydym yn arwain pecyn gwaith economeg iechyd rhaglen grant 6 blynedd NIHR ar gyfer ymchwil gymhwysol i ddatblygu, gwerthuso a gweithredu llwybr rheoli clinigol, sy'n cynnwys **adsefydlu niwroseicolegol mewn MS** (yr astudiaeth NEuROMs). Roedd rhoi sylw i gost effeithiolrwydd y rhaglen a'r gwerth economaidd i'r GIG, cleifion a chymdeithas yn nod hanfodol. Roeddem hefyd wedi cynllunio dull newydd (wedi'i seilio ar ein harbenigedd mewn defnyddio modelau rhesymeg i ategu gwerthusiadau economeg iechyd) i ddogfennu problemau posibl o ran capasiti'r gwasanaeth a chynllunio llwyth gwaith ar gyfer comisiynwyr fel rhan **o lywio strategaeth weithredu arfaethedig y rhaglen**. Cychwynnodd y rhaglen waith hon yn 2019, gyda chyllideb o £1,836,000.

### Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Lansiwyd yr astudiaeth ar Ddiwrnod Sglerosis Ymledol y Byd ar 30 Mai 2019, gyda gwefan bwrpasol. Mae'r gwaith hwn yn galluogi WHESS i 'hyrwyddo a gwarchod lle Cymru yn y byd'. Drwy sicrhau lle blaenllaw ar lwyfan y DU, rydym yn meithrin perthnasoedd â grwpiau allweddol ar lefel y DU, ac yn datblygu perthnasoedd rhyngwladol o ganlyniad i'n proffil uwch, ein presenoldeb a'n perfformiad y tu hwnt i Gymru. Byddwn hefyd yn cyfrannu at 'ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd sy'n addas i'r dyfodol' drwy **gefnogi gwasanaethau ac ymyriadau gwerth uchel i bobl ag MS.**

## Gwella anghydraddoldebau iechyd mewn cyflyrau cronig

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS helpu i'w ateb?

Mae'r Ganolfan Iechyd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol, Betsi Cadwaladr (BCUHB), Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Undeb Rygbi Cymru. Mae'n defnyddio Cronfeydd Iechyd Annibynnol gan Gyngor Conwy i **hybu annibyniaeth pobl â chyflyrau cronig** ac mae'n rhoi pwyslais ar **fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i'r bobl dlotaf** drwy ddileu rhwystrau rhag gwneud ymarfer corff, a hyrwyddo cyd-gynhyrchu a hunan reoli cyflyrau.

### Beth wnaethom ni?

Wedi'i ariannu gan ffrwd Gofal Cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rydym wedi gwerthuso effaith y Ganolfan Iechyd ar lesiant a chyfranogiad cymdeithasol y cyfranogwyr, ac edrych ar y ffactorau sy'n arwain at weithredu ac ymgysylltu'n llwyddiannus â'r Ganolfan Iechyd.

Bu Dr Carys Jones yn goruchwylio'r gwaith o edrych ar ddata'r Ganolfan Iechyd i chwilio am batrymau presenoldeb, yn gwerthuso'r ffactorau sy'n gysylltiedig â gweithredu llwyddiannus ac ymgysylltu â chleientiaid a bu'n arwain dadansoddiad o enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad drwy edrych ar y gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Iechyd.

### Beth yw'r effaith ?

Os yw cyfranogi cymdeithasol ac asedau cymunedol yn gwella, bydd angen gwerthuso mentrau presennol i ddeall beth sy'n gweithio ac i bwy, ac i gadarnhau'r gwerth a gynhyrchir gan y mentrau hyn. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod y gymhareb enillion cymdeithasol i fuddsoddiad o fuddiannau i gostau yn **£5.07 o werth cymdeithasol wedi'i gynhyrchu am bob £1 a fuddsoddwyd yn y Ganolfan Iechyd.** Roedd Mynegai Mas y Corff wedi gostwng yn achos dros hanner y cleientiaid, roedd pwysedd gwaed traean ohonynt wedi gwella ac roedd ansawdd bywyd wedi gwella ar ôl 16 wythnos. Mae'r astudiaeth yn dangos tystiolaeth bendant o werth cymdeithasol ac o fuddiannau'r Ganolfan Iechyd, ynghyd â damcaniaeth esboniadol ynglŷn â sut a pham mae'r fenter yn un llwyddiannus.

Rhannwyd canfyddiadau'r astudiaeth ag ystod eang o gynulleidfaoedd, gan hybu cysylltiadau cyfredol â rhanddeiliaid allweddol ac ennyn diddordeb ymhlith cydweithredwyr newydd.

### A wyddoch chi…?

Yn 2019/20, bu ymchwilwyr WHESS yn cynorthwyo mewn 19 o ddigwyddiadau **lle'r oedd 360 aelod o'r cyhoedd yn bresennol** a lledaenwyd 34 o gyhoeddiadau a oedd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.

Roedd cydweithio agos â rhanddeiliaid allweddol y Ganolfan Iechyd drwy gydol yr astudiaeth yn sicrhau **bod yr ymchwil yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i'r sawl sy'n trefnu ac yn darparu gwasanaeth y Ganolfan Iechyd.** Mae'r cydweithredu hwn wedi helpu i gau'r bwlch rhwng cynhyrchu a defnyddio ymchwil, a chyflymu'r llwybr at effaith.



**Carys Jones**
*Swyddog Ymchwil WHESS*

## Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Cymreig: yr astudiaeth TRIAGE

Roedd yr astudiaeth TRIAGE yn brofiad gwerthfawr, a oedd yn cynnig canfyddiadau newydd ar lwybrau gofal iechyd, diffyg ymateb ac ymlyniad i feddyginiaethau, gweithredu ymyriadau cymhleth, a phrofiad y claf. Cyhoeddwyd dwy erthygl gennym gyda thrydedd un yn destun adolygiad a **dechreuwyd deialog newydd ar reoli cyflyrau cronig y llygaid fel glawcoma.** Rwyf wrth fy modd bod fy ngwaith ar yr astudiaeth wedi arwain at fy symud i WHESS, cydweithio ar astudiaethau ymchwil newydd a helpu fy natblygiad proffesiynol.



**Simon Read**
*Swyddog Ymchwil WHESS*

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS helpu i'w ateb?

Roedd yr ymchwil, ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, yn edrych ar **newid mewn llwybrau ar gyfer gofal clinigol pobl â glawcoma**. Gall cleifion â glawcoma ddatblygu pwysedd intraocwlar uwch na'r disgwyl (IOP) hyd yn oed os oes diferion llygad gorbwysedd ocwlar yn cael eu rhagnodi. Gall hyn fod yn broblemus i glinigwyr o gofio bod IOP yn deillio o ymateb ffisiolegol ac ymlyniad y claf.

### Beth wnaethom ni?

Mewn cydweithrediad â'r RDCS, rydym wedi cefnogi grant llwyddiannus i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Research ar gyfer cynllun Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB). Roedd yr astudiaeth yn asesu a oedd Model Caerdydd ar gyfer Gofal Glawcoma (CMGC), llwybr clinigol a ddatblygwyd i ddatrys y problemau hyn, yn dderbyniol i gleifion ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, a chynhyrchwyd **gwybodaeth newydd ar ddiffyg ymateb a diffyg ymlyniad i driniaeth** gorbwysedd ocwlar. Buom yn gwerthuso effaith y llwybr CMCG ar adnoddau a chostau o'i chymharu â'r gofal arferol a chanfuwyd datrysiadau i heriau o ran recriwtio a chyflawni'r ymchwil. Bu economegwyr iechyd WHESS yn cydweithio'n glos â'r tîm ymchwil ansoddol a chyfrannwyd at ddatblygu themâu ac argymhellion ynghyd â chyflawni'r cydrannau economeg iechyd. Mae'r fath gyfraniadau'n hanfodol i newid y canfyddiad cyffredin mai'r unig beth mae economegwyr yn ei wneud '*yw'r costio ar y diwedd*'.

### Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Arweiniodd y cydweithrediad buddiol â Dr Simon Read, y cymdeithasegwr ar dîm yr astudiaeth, at gydweithio pellach ar brosiect ymchwil arall, a dysgwyd llawer am ddisgyblaethau'r naill a'r llall er budd pawb. Mae Simon bellach wedi ymuno â SCHE a WHESS fel ymchwilydd, i harneisio'r synergedd hwn i gynorthwyo astudiaethau eraill.

Roedd cyfraniad economeg iechyd yn hanfodol i ganfod y llwybr newydd a fyddai'n golygu'r effaith leiaf bosibl ar adnoddau neu gyllid pe bai'r llwybr yn cael ei newid. Nodwyd rhwystrau eraill rhag newid ond mae lleddfu pryderon ariannol yn hanfodol i dynnu sylw rheolwyr gwasanaethau. Dangosodd yr astudiaeth **dystiolaeth gadarn i oleuo datblygiad llwybr glawcoma gyda gwell buddiannau clinigol** fel rhan o ddarparu gofal o ansawdd i wella iechyd unigolion a theuluoedd yng Nghymru,

## Ymchwilio i ddewis cleifion ar gyfer sgrinio coluddion: Astudiaeth WASh

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS helpu i'w ateb?

Nod astudiaeth WASh oedd **ymchwilio i ddewisiadau cleifion ar gyfer sgrinio coluddion**, gan ddefnyddio sigmoidosgopi hyblyg (FS) i chwilio am bresenoldeb canser y colon. Cynhaliodd ymchwilwyr WHESS arbrawf dewis arwahanol (Discrete Choice Experiment, DCE) i ymchwilio i bwysigrwydd cymharol gwahanol agweddau ar FS i gleifion.

### Beth wnaethom ni?

Dyluniwyd arbrawf DCE gyda phum nodwedd a oedd yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth bwriadus, gwybodaeth hapdreial wedi'i reoli WASh (RCT) a chyfweliadau ansoddol â chlinigwyr a oedd yn gysylltiedig â RCT WASh. Cafodd poen y driniaeth ei ddisgrifio'n seiliedig ar dair lefel bosibl, gyda phob nodwedd arall (methu abnormaledd, amser y driniaeth, glanhau'r coluddyn, a chymhlethdod) yn cael eu disgrifio gan ddefnyddio dwy lefel. Roedd y DCE yn defnyddio catalog dylunio arbrofol a arweiniodd at wyth dewis deuaidd tybiannol a gyflwynwyd i gleifion yn y RCT WASh, 24 awr ar ôl eu triniaeth FS. Gofynnwyd i gleifion ddewis (neu gyfnewid) rhwng y nodweddion yn y tasgau DCE drwy gymharu'r amrywiadau yn lefelau'r nodweddion rhwng dewisiadau o barau ac yna dewis dwy neu ragor o senarios tybiannol cyferbyniol, a fyddai wedyn yn dangos eu dewis cymharol o'r gwahanol nodweddion.

Dadansoddwyd y data o'r DCE a chafodd nodweddion eu graddio yn ôl newidiadau ystyrlon, wedi'u llywio gan dîm astudiaeth WASh, i'w graddio yn nhrefn eu pwysigrwydd.

### Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Dangosodd dewisiadau cleifion y DCE WASh y dylai gwybodaeth am boen ac effeithiolrwydd posibl FS gael ei rhoi i gleifion cyn iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'u opsiynau FS. Roedd yn well gan gleifion hefyd driniaethau byrrach dros gyfnod hwy a byddai cleifion yn barod i oddef mwy o boen yn gyfnewid am lai o ganlyniadau negyddol ffug.

Cyfrannodd ymchwilwyr WHESS **agwedd bwysig canfyddiadau a dewisiadau cleifion at astudiaeth a oedd yn ystyried sut y gellid lleihau lefelau poen ac anghysur i gleifion** sy'n cael sigmoidosgopi i ymchwilio i ganser posibl yn y coluddyn.

Roedd Seow Tien Yeo yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio â'r Athro Matt Rutter a'i dîm ar yr astudiaeth WASh i ddatblygu'r arbrawf dewis arwahanol, Mi wnes innau fwynhau cydweithredu efo'r timau o CHEME a WASh wrth fynd ati i gyhoeddi canlyniadau'r DCE mewn cyfnodolyn economeg iechyd.



**Llinos Haf Spencer**
*Tîm Rheoli WHESS*

# Pwyslais ar Werth

## Cofnodi gwerthoedd cleifion a'r cyhoedd mewn canser

Rwyf ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer y lleoliad gofal canser sy'n seiliedig ar werthoedd ystod eang o randdeiliaid gofal iechyd. Ar ôl cwblhau camau cynllunio'r prosiect, mae'n braf cael gweithio â chyfranogwyr mewn ymdrech i lunio eu gwasanaeth gofal iechyd. Mae trafodaethau ar ofal iechyd a darpariaeth gofal iechyd yn bwysicach yn awr nag erioed, sy'n gwneud y prosiect hwn yn un amserol iawn fel cyfrwng i alluogi cleifion, gofalwyr a'r cyhoedd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a **chydweithio i ffurfio gwasanaeth gofal iechyd sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.**



**Rebecca Summers**
*Myfyriwr PhD WHESS*

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS helpu i'w ateb?

Datblygodd ymchwilwyr WHESS Brosiect PhD gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i helpu i greu fframwaith seiliedig ar werth i werthuso datblygiadau arloesol mewn gweithredu ac addysg cleifion, sy'n seiliedig ar ddatblygiad technolegau Deallusrwydd Artiffisial (AI). Mae'r prosiect yn ymdrech i ddatblygu meini prawf seiliedig ar werthoedd sy'n ymgorffori gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar gleifion a dinasyddion mewn gwerthusiadau. Mae'r gwaith yn cefnogi cenhadaeth Gofal Canser Felindre '*i ddarparu gofal cleifion o'r ansawdd gorau, addysg ac ymchwil o safon ryngwladol* gyda'r nod o '**ddeall, disgrifio a mesur y cysyniad o 'werth' mewn gofal canser, gan gofnodi safbwyntiau cleifion a'r cyhoedd.**

### Beth wnaethom ni?

Cydweithio â Phillip Webb, Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol, a'r Athro Peter Barrett-Lee, cyfarwyddwr clinigol ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar y pryd, ar gais a wnaed ac a ddyfarnwyd gan raglen KESS II sy'n galluogi Prifysgolion i weithio â chwmnïau i gyflawni prosiectau ymchwil a hyfforddiant mewn sgiliau uwch. Cafodd Rebecca Summers, nyrs gymwysedig a oedd newydd ddychwelyd i Gymru ar ôl cwblhau gradd Meistr ym Mhrifysgol Oxford Brookes, ac a oedd yn awyddus i ddatblygu gyrfa mewn economeg iechyd ansoddol ac ymchwil i wasanaethau iechyd, ei recriwtio i'r prosiect.

### Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Mae'r PhD newydd gychwyn ar ei ail flwyddyn, gyda sawl cyflwyniad wedi'u rhoi i bwyllgorau Canolfan Canser Felindre gan gynnwys ei banel cleifion a'r cyhoedd. Cafodd gwaith Rebecca ei ddewis fel cyflwyniad yng nghynhadledd PhD KESS II yn Hwngari yng Ngwanwyn 2019, ac fe'i cyflwynwyd i Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) ym mis Hydref 2019. Mae'r canlyniadau'n cael eu paratoi ar gyfer y gwaith cam cynnar sy'n disgrifio gofal seiliedig ar werth o safbwynt uwch arweinyddion barn a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## Cyfrifo gwerth cymdeithasol: Diweddariad ar Ganolfan Gwerth Cymdeithasol Bangor

### Beth oedd y cwestiwn y gallai WHESS helpu i'w ateb?

Y llynedd adroddwyd sut yr oedd WHESS wedi cynorthwyo â datblygiad Canolfan Gwerth Cymdeithasol, aelod sefydliadol o Social Value UK. Yn 2019/20, cynigiodd y Ganolfan Gwerth Cymdeithasol gyngor, hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori i helpu sefydliadau **i fesur a chyfleu'r newidiadau positif y mae sefydliadau statudol, gwirfoddol ac elusennol yn eu gwneud i bobl** a'r amgylchedd mewn cymunedau lleol.

### Beth wnaethom ni?

Ffurfiwyd partneriaethau a oedd yn cynnwys Cyngor Conwy, Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin, Community Care Collaborative, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Well North Wales, a'r Gymdeithas Coetiroedd Bach. Mae'r Ganolfan Gwerth Cymdeithasol hefyd wedi ffurfio partneriaethau ymchwil â Phrifysgolion Caerdydd, Caerlŷr a Nottingham, Prifysgol De Cymru a Chanolfan PRIME Cymru. I adeiladu ar gyfleoedd i rwydweithio a chydweithio, mae Dr Mary Lynch yn aelod o grŵp llywio Rhwydwaith Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSPRN), sy'n ymdrech i **gynhyrchu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru.** Mae'r Ganolfan Gwerth Cymdeithasol hefyd wedi cwblhau adroddiad i Gyngor Gwynedd ar 'The social value of subsidised bus routes in Gwynedd'.

### Beth yw'r effaith ddisgwyliedig?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddodd y Ganolfan Gwerth Cymdeithasol dri phapur a phrotocol, a ategwyd gan dri phrosiect MSc ac un PhD ar ragnodi cymdeithasol ac a gyflwynwyd mewn pedair cynhadledd. Buom hefyd yn darparu hyfforddiant ar werth cymdeithasol i Gyngor Sir Cheshire West and Chester, Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru yn y Fenni a Bangor, Busnes Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mirmingham.



*Dr Ned Hartfiel ac Eira Winrow yn cyflwyno hyfforddiant gwerth cymdeithasol i Rwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru yn Amgueddfa'r Big Pit ym Mlaenafon, Torfaen.*

Drwy'r Ganolfan Gwerth Cymdeithasol ac aelodaeth o WSPRN, rwyf yn awr yn aelod allweddol o Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru, sy'n cael ei hariannu gan gronfa seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'r Ysgol yn gweithio â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a phartneriaid eraill i **ddatblygu sylfaen dystiolaeth allweddol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru** gyda'r rhwydweithiau'n chwilio am gyfleoedd ar gyfer ymchwil gydweithredol newydd.



**Mary Lynch**
*Ymchwilydd WHESS*

# Cyflwyniadau a Digwyddiadau



*Berni Sewell yn cyflwyno canlyniadau gwerthusiad canolfan diagnosis cynnar Bwrdd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer cleifion â symptomau amwys a allai fod yn ganser yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mis Hydref 2019.*



*Lucy Bryning yn cyflwyno poster ar grynodeb gweledol o adroddiadau ar y dadleuon economaidd dros fuddsoddi ar draws y cwrs bywyd yng nghynhadledd Ymchwilwyr Cynnar a Pharhaus Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor.*

Rydym yn gweithio â'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol, fel bod 'syniadaeth economeg iechyd' yn cael ei hystyried wrth gynllunio ymchwil neu werthusiadau o ymyriadau iechyd a gofal. Eleni, **buom yn rhannu ein harbenigedd ac yn gwneud cysylltiadau newydd ar hyd a lled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol yn sgil ein presenoldeb mewn 19 o ddigwyddiadau.**

## Cyflwyniadau a digwyddiadau nodedig

- Roedd Eira Winrow, Dr Jo Charles a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards yn bresennol yng Nghynhadledd European Health Economics Association Student-Supervisor yn Porto, Portiwgal. Nod y gynhadledd hon yw **cynorthwyo'r genhedlaeth nesaf o economegyddion iechyd** ledled Ewrop.
- Roedd yr Athro Deb Fitzsimmons yn bresennol yn nghyfarfod y EORTC Quality of Life Group yn Napoli, yr Eidal, ym mis Medi 2019.
- Ymunodd yr Athro Deb Fitzsimmons â phwyllgorau llywio treialon TANDEM a threialon a ariennir CODIF2-Two NIHR HTA.
- Cyflwynodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards seminar ym Mhrifysgol Lerpwl, lle mae hi'n Athro er Anrhydedd, **gan gryfhau'r cysylltiadau ymchwil** rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Lerpwl.
- Buom yn cynnal symposiwm ymchwil ar y cyd rhwng CHEME a chydweithwyr o'r Institute of Population Health Sciences ym Mhrifysgol Lerpwl, ym mis Medi 2109. Roedd yn bleser croesawu Dr Brendan Collins, yr Athro Sally Sheard, a'r Athro Simon Capewell, ynghyd ag ymchwilwyr ar ddechrau a chanol eu gyrfa i Fangor gyda chynllun ar gyfer y cyfarfod nesaf yn Lerpwl**, gan hybu coridor ymchwil Gogledd Cymru-Gogledd Orllewin Lloegr.**
- Cafwyd cyflwyniad gan Dr Ned Hartfiel o Ganolfan Gwerth Cymdeithasol CHEME ar 'Mesur Gwerth Cymdeithasol Gweithgarwch Coetiroedd' mewn cynhadledd i Reolwyr Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mirmingham.

## WHESS ar lwyfan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

*Rhiannon Tudor Edwards yn cyflwyno ei phrif anerchiad yng Nghynhadledd Flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Hydref 2019.*



Roedd yn bleser gael gwneud cyfraniad pwysig at Gynhadledd Flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Hydref 2019.

**Roedd ein cyfraniadau'n cynnwys:**

- Prif anerchiad gan yr Athro Rhiannon Tudor Edwards i ddangos sut mae WHESS yn cydweithio â'r gymuned Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Sesiwn a gyflwynwyd gan Dr Berni Sewell ar y cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i werthuso eu Canolfan Diagnosis Cyflym ar gyfer canser.
- Gweithdy Economeg Iechyd a gyflwynwyd gan dîm Cymru gyfan WHESS ar economeg iechyd a gofal iechyd seiliedig ar werth.
- Poster gan Dr Llinos Haf Spencer ar ddilysiad ieithyddol y mesur iechyd PROMIS-10.
- Poster gan Dr Carys Jones sy'n disgrifio canfyddiadau'r prosiect Canolfan Iechyd (tudalen 23).



*Ymchwilwyr WHESS yn hwyluso gweithdy economeg iechyd gerbron cynulleidfa dda yng Nghynhadledd Flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mis Hydref 2019.*

# WHEG mewn Lluniau

Dyddiad pwysig yng nghalendr WHESS yw **Cyfarfod Blynyddol Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG)**, a ariennir drwy ein grant seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae ein hymchwilwyr WHESS a'r myfyrwyr PhD cysylltiedig o'r De a'r Gogledd yn cwrdd yn gymdeithasol a phroffesiynol dros ddau ddiwrnod, i rannu a dysgu o waith ei gilydd drwy gyfres o gyflwyniadau ac arddangosfeydd o bosteri.

Ym Mhrifysgol Bangor eleni croesawyd Dr Brendan Collins, Prif Economegydd Iechyd Llywodraeth Cymru, ac economegyddion iechyd eraill o Dechnoleg Iechyd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae cyfarfod blynyddol WHEG yn gyfle arbennig i **gryfhau cydweithredu mewn economeg iechyd ledled Cymru** ac i'n hymchwilwyr a myfyrwyr i gwrdd ag economegyddion iechyd byd-enwog mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol ar ddechrau eu gyrfa, i rannu gwybodaeth, i ennyn hyder ynddynt ac i dyfu fel gweithwyr proffesiynol.

**Diddordeb yn WHEG?**

Am ragor o wybodaeth am WHEG a'n cyfarfodydd blynyddol, cysylltwch â gweinyddwr WHESS Ann Lawton ar a.b.lawton@bangor.ac.uk neu 01248 382153.




*Brendan Collins yn rhannu ei weledigaeth am ei rôl newydd fel Pennaeth Economeg Iechyd â Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod WHEG yn 2019.*




*Konstantinos Skiadas yn cyflwyno ei waith ar y dad-fuddsoddiad priodol o feddyginiaethau a bennwyd fel blaenoriaeth isel ar gyfer cyllido yn GIG Cymru mewn cydweithrediad ag AWMSG.*




*Rajendra Kadel, economegydd iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn trafod gweithgarwch economeg iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru.*




*Hani Nor Ismail, myfyriwr MSc drwy Ymchwil gyda CHEME, yn cyflwyno ei gwaith ar economeg iechyd ffototherapi cymunedol.*

# Creu Sylfaen Dystiolaeth Economeg Iechyd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal

Cawsom flwyddyn gynhyrchiol wrth gynhyrchu allbynnau o ymchwil wedi'i chefnogi a'i harwain gan WHESS. **Cyhoeddwyd 34 o bapurau gennym** a chyrhaeddodd canlyniadau ein hymchwil a gwerthusiadau **dros filiwn o bobl** drwy'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol.

## Cyhoeddiadau nodedig yn 2019/20


**Bray N, Spencer LH, Tuersley L, ac Edwards RT** (2020): Development of the MobQoL patient reported outcome measure for mobility-related quality of life. *Disability and Rehabilitation*. https://doi.org/10.1080/09638288.2020.1741701.

**Charles JM**, Harrington DM, Davies MJ, Edwardson CL, Gorely T, Bodicoat DH, Kamlesh K, Sherar LB, Yates T, **Edwards RT** (2019): Micro-costing and a cost-consequence analysis of the 'Girls Active' programme: A cluster randomised controlled trial. PLoS ONE; 14(8): e0221276.

das Nair R, Bradshaw LE, Carpenter H, Clarke S, Day F, Drummond A, **Fitzsimmons D, Harris S**, Montgomery AA, Newby G, Sackley C, Lincoln NB (2019): A group memory rehabilitation programme for people with traumatic brain injuries: the ReMemBrIn RCT. Health Technology Assessment; 23(16): 1-194.

Davies E, Phillips C, Rance J, **Sewell B** (2019): Examining patterns in opioid prescribing for non-cancer-related pain in Wales: preliminary data from a retrospective cross-sectional study using large datasets. British Journal of Pain; 13(3): 145-158.

Deluca P, Coulton S, Alam MF, Boniface S, Donoghue K, Gilvarry E, Kaner E, Lynch E, Maconochie I, McArdle P, McGovern R, Newbury-Birch D, Patton R, Pellatt-Higgins T, Phillips C, Phillips T, **Pockett R,** Russell IT, Strang J, Drummond C (2020): Screening and brief interventions for adolescent alcohol use disorders presenting through emergency departments: a research programme including two RCTs. Southampton (UK): NIHR Journals Library; Programme Grants for Applied Research, No. 8.2.

Lincoln NB, Bradshaw LE, Constantinescu CS, Day F, Drummond AE, **Fitzsimmons D, Harris S,** Montgomery AA, das Nair R (2020): Group cognitive rehabilitation to reduce the psychological impact of multiple sclerosis on quality of life: the CRAMMS RCT. Health Technology Assessment; 24(4): 1-182.

Noyes J, Allen D, Carter C, Edwards D, **Edwards RT,** Russell D, Russell IT, **Spencer LH,** Sylvestre Y, Whitaker R, **Yeo ST**, Gregory JW (2020): Standardised self-management kits for children with type 1 diabetes: pragmatic randomised trial of effectiveness and cost-effectiveness. *BMJ Open, 10*(3), e032163.

Pine CM, Adair PM, Burnside G, Brennan L, Sutton L, **Edwards RT, Ezeofor V,** et al. (2020): Dental RECUR Randomized Trial to Prevent Caries Recurrence in Children. *Journal of Dental Research*, 99(2), 168-174.

**Sewell B, Jones M**, Gray H, Wilkes H, Lloyd-Bennett C, Beddow K, Bevan M, **Fitzsimmons D** (2020): Rapid cancer diagnosis for patients with vague symptoms: a cost-effectiveness study. British Journal of General Practice; 70(692): e186-e192.

## Edrych ymlaen: Cyfnod newydd i economeg iechyd yng Nghymru

### A wyddoch chi...?

'Dechreuodd' WHESS ar 1 Rhagfyr 2006, wedi'i ariannu bryd hynny gan NISCHR ac o dan arweiniad yr Athro David Cohen, gyda chymorth yr Athrawon Ceri Phillips a Rhiannon Tudor Edwards. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, cafodd WHESS ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o dan arweiniad yr Athro Rhiannon Tudor Edwards ynghyd â'n grŵp rheoli.

Gobeithio eich bod mwynhau wedi darllen ein hadroddiad blynyddol am 2019/20. Mae'n nodi carreg filltir bwysig yn hanes Economeg Iechyd yng Nghymru.

**Rydym yn hynod ddiolchgar i'n grŵp cynghori sydd wedi ein 'profi a'n herio' bob cam o'r daith,** yn benodol drwy ein hannog i fod yn fwy uchelgeisiol. Rydym yn ddyledus hefyd i'r holl bobl sydd wedi gweithio â ni yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac am y gefnogaeth a gawsom gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'n galluogi i gyflawni ein gweithgarwch ac i hybu datblygiad ymchwil economeg iechyd a meithrin a datblygu gallu yng Nghymru. **Un o'n cyflawniadau mwyaf nodedig yw gweld ein hymchwilwyr yn datblygu eu gyrfaoedd eu hunain.** Mae llawer ohonynt wedi sicrhau cymrodoriaethau a dyrchafiad yn y byd academaidd ac mae sawl un o'n hymchwilwyr a gefnogwyd gan WHESS wedi ymuno â sefydliadau iechyd ledled Cymru.

Mae ein dull Cymru gyfan o weithio â chydweithwyr a phartneriaid ledled Cymru yn un o'n rhinweddau – o weithio â chydweithwyr yn yr unedau treialon clinigol a RDCS i uwch aelodau'r tîm yn cynorthwyo cyrff penderfynu drwy roi cyngor economeg iechyd ac arbenigedd technegol.

**Rydym yn ein 15fed blwyddyn erbyn hyn, ond nid ydym wedi gorffen y gwaith.** Bydd WHESS yn esblygu i **Economeg Iechyd a Gofal Cymru** ar 1 Ebrill 2020, fel rhan o'n dyfarniad seilwaith 3 blynedd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Rydym wedi diwygio ein gweledigaeth ac wedi llunio amcanion i barhau i **gynorthwyo'r gymuned ymchwil a'r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru**, yn benodol drwy'r RDCS, Unedau Treialon Clinigol a grwpiau seilwaith eraill Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Byddwn hefyd yn **meithrin ac yn cynyddu ein cyfraniad at gyrff penderfynu yn y maes gofal iechyd** drwy gyngor a chymorth profiadol seiliedig ar angen ac yn sicrhau ein bod yn parhau â'r cynnydd sylweddol a wnaed gennym mewn Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae'n gyfnod cyffrous wrth inni ddatblygu meysydd gweithgarwch newydd, gan ganolbwyntio ar Economeg Iechyd a Gofal Cymru fel **Canolfan Ragoriaeth Economeg Iechyd Cymru Gyfan** ledled y DU a thu hwnt. Mae'n bleser croesawu'r Athro Dyfrig Hughes fel un o'n uwch gyd-ymchwilwyr ochr yn ochr â Dr Pippa Anderson a fydd yn arwain datblygiad ein cymuned o arbenigedd methodoleg economeg iechyd. Rydym hefyd yn croesawu'r Athro Deb Fitzsimmons fel Cyd-gyfarwyddwr Economeg Iechyd a Gofal Cymru.

Ar ran cymuned Economeg Iechyd a Gofal Cymru, wrth ymestyn allan at ein cydweithredwyr, rydym yn gwneud y datganiad cloi o'n cartrefi ein hunain ar hyd a lled Cymru, wrth inni ddygymod â'r 'normal newydd' ac wrth i ni feddwl am ailafael yn betrus mewn bywyd ar ôl cyfyngiadau Covid-19. Mae llawer o bethau wedi'u rhoi mewn persbectif. Hoffem ddiolch i'n tîm WHESS/Economeg Iechyd a Gofal Cymru sy'n parhau â'n hymchwil ac sy'n paratoi ceisiadau newydd i ymchwilio i effeithiau Covid-19 yn wyneb yr heriau a brofwyd yn ystod y misoedd diwethaf. Edrychwn ymlaen at 2020/2021 a'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil wrth inni chwarae ein rhan fel grŵp seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.


# Tîm 2019/20 WHESS

## Cyfarwyddwr WHESS



Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards

Cyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) ym Mhrifysgol Bangor



## Bwrdd Cynghori WHESS

**Yr Athro Steven Morris** (Athro Economeg Iechyd, University of Cambridge)
**Mrs Karen Harrington** (Cynrychiolydd y cyhoedd)
**Yr Athro Mandy Ryan** (Cyfarwyddwr yr Uned Economeg Iechyd, University of Aberdeen)
**Yr Athro Dyfrig Hughes** (Athro Ffarmacoeconomeg a Cyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau, CHEME, Prifysgol Bangor)

## Tîm Rheoli WHESS

Dr Pippa Anderson
Dr Joanna Charles
Dr Llinos Haf Spencer
Yr Athro Dyfrig Hughes
Yr Athro Deb Fitzsimmons
Dr Berni Sewell
Dr Liv Kosnes
Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards

## Tîm Ymchwil WHESS

Eira Winrow
Julia Lowin
Dr Carys Jones
Dr Mari Jones
Dr Lorna Tuersley
Dr Simon Read
Dr Victory Ezeofor
Lucy Bryning
Katherine Cullen
Dr Ned Hartfiel
Dr Narayan Poudel
Rebecca Summers
Rhys Pockett
Konstantinos Skiadas
Bethany Anthony
Dr Nathan Bray
Dr Mary Lynch

**Cydnabod**

Hoffem ddiolch i **Ann Lawton, Gweinyddwr WHESS, yn CHEME** am ei chyfraniadau gwerthfawr at gynhyrchu adroddiadau WHESS drwy gydol y flwyddyn ac i **Dr Catherine Lawrence** am ei help â'r adroddiad hwn.

**Parnteriaid allweddol WHESS**

## Ein Sefydliadau Partner

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Swansea University Prifysgol Abertawe

## Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru
## Iechyd Cyhoeddus Cymru

GIG CYMRU NHS WALES

YMDDIRIEDOLAETH GIG FELINDRE
VELINDRE NHS TRUST

## Y Cyhoedd



## Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

rdcs
Research Design & Conduct Service
Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Swansea Trials Unit
Uned Dreialon Abertawe

NWORTH

UNED YMCHWIL DIABETES CYMRU
DIABETES RESEARCH UNIT CYMRU

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD
Centre for Trials Research
Canolfan Ymchwil Treialon

Canolfan PRIME Cymru
PRIME Centre Wales

## Partneriaid Allweddol Eraill

Cedar

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre

Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Pobl
People
Ymchwil
Research
Polisi
Policy
Ymarfer
Practice
Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru
The Wales School for Social Care Research

Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth



# WHESS

**Welsh Health Economics Support Service**
**Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru**

## Darganfod rhagor am WHESS:

https://www.ymchwiliechydagofal.llyw.cymru/gwasanaeth-cymorth-economeg-iechyd-cymru/

## Cysylltu â ni:


**Ffôn:** 01248 382153 or 01792 602226

**E-bost:** r.t.edwards@bangor.ac.uk